## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2024/25 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **Swyddog perthnasol:** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Chwefror, 2024 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2024/25 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 7fed o Fawrth 2024.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y Cynllun, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau sydd wedi ei wneud iddo, cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fawrth 2024.

**3 Cyflwyniad:**

3.1 Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor 2023-28 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 2ail o Fawrth 2023. Y Cynllun yw'n datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Mae'n datgan ein gweledigaeth a'n huchelgais am 5 mlynedd ynghyd a'r prosiectau y byddwn yn eu cyflawni.

3.2 Datblygwyd Cynllun o'r newydd y flwyddyn diwethaf gan ddilyn trefn drylwyr ac adnabod nifer o flaenoriaethau newydd sy'n ceisio ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd ar gyfer y cyfnod o sefydlogi ac ail adeiladu o'r pandemig.

3.3 Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd 2023-2028 o dan saith maes blaenoriaeth: Gwynedd Yfory, Gwynedd Lewyrchus, Gwynedd Glyd, Gwynedd Ofalgar, Gwynedd Gymraeg, Gwynedd Werdd a Gwynedd Effeithlon. Y meysydd blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ceir copi o'r Cynllun cyfredol yn **Atodiad 1.**

3.4 Pwrpas adolygu'r Cynllun yw edrych ar lle rydym wedi cyrraedd ar ôl blwyddyn o weithredu, yn ogystal â gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn. Bu inni ystyried beth sydd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar feysydd blaenoriaeth, uchelgeisiau a'r prosiectau sydd yn y Cynllun presennol ac ystyried os oes yna rai y dylid eu hychwanegu, addasu neu rai y dylid eu tynnu allan.

**4 Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r addasiadau i'r Cynllun. Mae manylder ynghylch y diwygiadau hyn wedi eu hamlygu **yn Atodiad 2.**

4.1.1 Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd:

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory***

- **Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd**
- **Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd.**

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Gymraeg***

- **Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg**

4.1.2 Mae sgôp neu gynnwys y prosiect canlynol wedi newid:

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory***

- **Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu** – diwygiad i drosolwg y prosiect.

4.1.3 Mae'r prosiect canlynol wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran berthnasol yn ystod 2023/24:

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory***

- **Cinio Ysgol am ddim**

4.1.4 Yn ogystal, yn dilyn dymuniad i symleiddio'r disgrifiad a chanolbwyntio ar faterion trawsnewidiol mae prosiectau yn y maes Oedolion o fewn **Maes Blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar** wedi eu hail-becynnu o dan 5 prosiect newydd, sef:

- **Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol**
- **Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal**
- **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned**
- **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth**
- **Llechen Lan**

  <u>Maent yn disodli y prosiectau canlynol oedd yn y fersiwn gwreiddiol o'r Cynllun:</u>
- **Cefnogaeth Ataliol yn Lleol**
- **Byw'n Annibynnol**
- **Gofal Arbenigol o Ansawdd.**

4.1.5 Dylid nodi fod gwaith yn mynd rhagddo i adnabod cerrig milltir prosiectau ar gyfer 2024-25 ac amlinelliad o'r cerrig milltir ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun. Bydd cyfle i drafod y rhai perthnasol i'ch maes cyfrifoldeb mewn cyfarfodydd i'w cynnal ym mis Mawrth.

4.1.6 Awgrymir bod gweddill y prosiectau o dan y saith maes blaenoriaeth yn parhau o 2023/24.

**3.2 Adnoddau**

3.2.1 Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir ar gyfer nifer o'r prosiectau o fewn y Cynllun. Heb yr adnodd mae'n bosibl na fydd modd i ni gyflawni'r hyn a nodir. Ar hyn o bryd cynigir bod yr holl brosiectau yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r Cynllun, yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w hariannu, wedi iddynt ystyried pob achos busnes unigol.

3.3 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

3.3.1 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant. Ein saith maes blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae ein Datganiad Llesiant ar gyfer 2023-28 yn parhau i fod yn gyfredol.

3.4 **Ymgynghoriad Cyhoeddus**

3.4.1 Nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi bod ar yr adolygiad o'r cynllun gan y bu i ni ymgynghori yn helaeth ar gynnwys y Cynllun y Cyngor 2023-28. Fel rhan o'r broses hynny, ystyriwyd sawl darn o waith / gwybodaeth, gan gynnwys y prosiectau oedd yn y Cynllun presennol 2018-23, adborth o waith ymgysylltu Fframwaith Adfywio 'Ardal Ni', a'r Asesiadau Llesiant gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

3.4.2 Fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun, cynhaliwyd dau sesiwn ar ffurf gweithdy yn ystod mis Rhagfyr 2022 lle rhoddwyd wahoddiad i'r holl Aelodau Etholedig. Rhoddwyd cyfle iddynt amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw ar lefel sirol ynghyd â'r ardaloedd y maent yn eu cynrychioli. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus hefyd yn ystod mis Rhagfyr 2022. Yn gyffredinol, roedd cytundeb i'r blaenoriaethau drafft ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r Cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn yn 2023.

3.5 **Deddf Cydraddoldeb 2010**

3.5.1 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 3**.

3.5.2 Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

**4 Camau nesaf ac Amserlen**

4.1 O gymeradwyo'r addasiadau i'r Cynllun, bwriedir cyflwyno'r Cynllun diwygiedig i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 7fed o Fawrth 2024.

**5 Sylwadau Swyddogion Statudol**

**i. Prif Swyddog Cyllid**

Fel nodwyd pan fabwysiadwyd y Cynllun ym Mawrth 2023, mae cydnabyddiaeth y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, a felly rwyf yn cytuno gyda'r hyn a nodir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad, fod angen ystyried pob achos busnes yn unigol cyn fod cytundeb i'w hariannu. Mae'r cronfeydd penodol sydd ar gael i gefnogi'r Cynllun dan adolygiad parhaus.

Mae priodoldeb ariannol yn golygu byddwn yn parhau i sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario.

**ii. Swyddog Monitro**

Mae'n briodol fod y Cyngor yn cadw y Cynllun dan adolygiad cyson. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 : Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028

Atodiad 2 : Addasiadau i Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2024/25

Atodiad 3 : Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Adolygiad 2024/25